

Holiadur i Ddarparwyr Annibynnol

Mae posib i arweinydd sy'n ymweld ddefnyddio'r holiadur yma fel archwiliad sylfaenol ar **ddarparwr** neu **leoliad**. Dylai arweinwyr sy'n ymweld ofyn i'r darparwr/lleoliad lenwi'r ffurflen yma, neu gyflwyno'r un wybodaeth mewn fformat arall (e.e. lawrlwytho o wefan y darparwr/lleoliad), **cyn** gwneud archeb.

Nodiadau i ddarparwyr a lleoliadau annibynnol:

Efallai bod gennych chi eich dogfennau eich hunain sy'n cynnwys yr un wybodaeth mewn fformat gwahanol e.e. i'w lawrlwytho o'ch gwefan. Mae hyn yn dderbyniol yn lle'r ffurflen yma. Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth yma mewn fformat arall, plis llenwch yr holl adrannau perthnasol ar y ffurflen yma drwy ateb **ie, na** neu amherthnasol (**amh.**) ar ôl pob cwestiwn. Os ydych yn dymuno rhoi rhagor o wybodaeth, defnyddiwch ddalen(nau) ar wahân a'u hatodi wrth y ffurflen yma. Mae llofnod electronig yn dderbyniol ar y ffurflen yma, fel eich bod yn gallu e-bostio'r ffurflen ar ôl ei llenwi.

Enw'r Darparwr / Lleoliad

Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai

Cyfeiriad

Llanfairisgaer, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1UE

Ffôn 03003003112

E-bost info@plasmennai.co.uk

Enw'r person yn llenwi'r ffurflen yma Steven Morgan

Swydd yn y sefydliad Rheolwr y Ganolfan

Gwefan www.plasmennai.co.uk

Llofnod: S.Morgan

Dyddiad: 27 Medi 2016

1. Oes gan y Darparwr uchod unrhyw gydnabyddiaeth neu achrediad swyddogol?

Os **oes**, rhowch fanylion yma:

- 1.1 Canolfan Hyfforddi'r RYA
- 1.2 Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur
- 1.3 Dysgu Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth
- 1.4 Canwio Cymru
- 1.5 Nod Antur

2. Oes gennych chi asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer yr holl eiddo / gwasanaethau / gweithgareddau rydych chi'n eu darparu?

Oes, mae'r holl weithgareddau a'r gwasanaethau wedi cael Asesiad Risg ac mae'r rhain yn cael eu diweddarau'n flynyddol neu fel a phan fo angen.

Os **oes**, oes asesiadau risg ar gael i'w gweld os oes angen?

Mae Asesiadau Risg ar gael ar gais

Nodyn pwysig: peidiwch ag anfon copiau o'ch asesiadau risg.

Oes unrhyw gamau gweithredu'n codi o'ch asesiad risg y mae'n rhaid i'r arweinydd sy'n ymweld a'i grŵp fod yn ymwybodol ohonynt/eu dilyn? **Dim**

Os oes, sut ydych chi'n rhoi gwybod iddynt am hyn?

3. Ydi eich holl gyfleusterau'n cydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol? **YDYNT**

4. Ydych chi'n darparu offer cymorth cyntaf yn y lleoliad/gweithgareddau? **YDYM**

A fydd y swyddog cymorth cyntaf yn bresennol pan mae'r grŵp yn ymweld? **BYDD**

5. Oes posib i chi ddarparu, os oes angen, fanylion cyswllt ar gyfer grwpiau tebyg sydd wedi defnyddio eich gwasanaethau'n ddiweddar? **OES – Byddai Rheoliadau Diogelu Data yn gofyn i ni gysylltu â grwpiau**

eraill yn gyntaf, cyn i ni anfon eu gwybodaeth gyswllt ymlaen.

6. Ydych chi'n darparu cyfleoedd ar gyfer ymweliadau ymlaen llaw? **YDYM**

7. Ydych chi'n darparu offer gweithgarwch (e.e. offer gwarchodol personol neu offer chwarae)? **YDYM**
Oes gennych chi system ysgrifenedig ac wedi'i chofnodi o archwiliadau diogelwch / cynnal a chadw ar gyfer yr offer yma? **OES**

Os oes safonau cenedlaethol yn bodoli, a yw'r offer gweithgarwch yn cydymffurfio â'r safonau hyn? **YDYNT**

8. Oes gennych chi bolisi yswiriant atebolrwydd i'r cyhoedd a fydd yn gyfredol ar ddyddiad yr ymweliad arfaethedig ac yn gofalu am weithgarwch a ddarperir yn uniongyrchol a gweithgarwch ar is-gontract (os yw hyn yn digwydd)?

Mae Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai'n cael ei rhedeg a'i gweithredu gan Chwaraeon Cymru. Mae Chwaraeon Cymru'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cynnwys Yswiriant Atebolrwydd i'r Cyhoedd ac mae ein gweithgareddau a'n staff wedi cael eu hindemnio gan Lywodraeth Cymru. Rhoddir copïau o'r datganiadau hyn yn y pecyn i ysgolion rydych chi wedi'i dderbyn.

Os **oes**, nodwch Derfyn yr Indemniad yma – **Dim terfyn uchaf, y gweithgareddau'n cael eu hindemnio gan Lywodraeth Cymru**

9. Oes gennych chi weithdrefnau argyfwng ysgrifenedig? **OES**

Ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu cynnal oddi ar y safle, oes gennych chi weithdrefnau hwyr yn ôl? **OES**

Oes gennych chi weithdrefnau ar gyfer adrodd yn ôl a gweithredu ynghylch damweiniau / digwyddiadau / damweiniau agos? **OES**

10. Oes gennych chi weithdrefn ar gyfer delio â chwynion? **OES**

11. Sefydliadau preswyl yn unig

A fydd angen i'r grŵp rannu llety cysgu gydag eraill heb fod yn rhan o'u grŵp? **NA FYDD**

Ydi ystafelloedd gwely'r staff drws nesaf i ystafelloedd gwely'r bobl ifanc? **YDYNT**

Ydi'r llety cysgu'n ddiogel rhag tresmaswyr? **YDI**

Ydi'r gwasanaethau argyfwng yn gallu dod i'r safle'n rhwydd os oes angen? **YDYNT**

Ydych chi'n cynnal ymarfer tân gyda'r grŵp sy'n ymweld cyn eu noson gyntaf? **NAC YDYM, rhoddir briff llawn i athrawon / oedolion yn goruchwyllo.**

12. Darparwyr gweithgareddau yn unig

Nodwch (drwy dicio'r bocsys perthnasol) y mathau o grwpiau y mae gennych chi / eich staff goruchwyllo penodol brofiad o weithio â nhw:

Ysgolion cynradd Ysgolion uwchradd Grwpiau Ieuentid Ysgolion Arbennig

Pobl ifanc ag ymddygiad heriol Myfyrwyr chweched dosbarth a cholegau AB

Ydych chi'n darparu cyfleoedd rheolaidd am gyswllt rhwng eich staff a staff y grwpiau sy'n ymweld? **YDYM**

Oes diffiniad clir o gyfrifoldebau rhwng eich staff a staff y grwpiau sy'n ymweld? **OES**

Sut ydych chi'n rhoi gwybod i arweinydd y grŵp sy'n ymweld am agweddau ar yr ymweliad y bydd yn gyfrifol amdanynt? **Rhoddir y wybodaeth yn y pecyn ysgolion. Bydd Cyfarwyddwr y Cwrs yn briffio'r athrawon / arweinwyr ar eu rôl a'u cyfrifoldebau.**

Oes unrhyw rai o staff y Darparwr sy'n cael cyswllt arwyddocaol efallai â phobl ifanc wedi cael archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd? **OES**

13. Darparwyr gweithgareddau antur yn unig

Ydych chi'n cynnig gweithgareddau antur sy'n cael eu trwyddedu o dan y Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur (am fanylion, edrychwch ar www.aals.org)? **YDYM**

Os **ydych**, rhestrwch y gweithgareddau yma (neu ar ddalen ar wahân a'i hatodi wrth y ffurflen yma)

Categoriâu Gweithgarwch sy'n dod o dan y drwydded:

- Dringo
- Chwaraeon Dŵr
- Cerdded

Gweithgareddau Penodol:

- Abseilu
- Arfordiro
- Crwydro Ceunentydd
- Cerdded Mynyddoedd a Mynydda - (*Amodau'r haf yn unig*)
- Rafftio Byrfyfyr
- Caiacio
- Beicio Oddi ar y Ffordd (*Beicio Mynydd yw'r enw arno yn y ganolfan*)
- Canŵio Agored
- Rhwyf-syrffio
- Dringo Creigiau
- Hwyllo
- Rhwyf-fyrddio ar eich traed
- Gwyntsyrrffio

Os nad ydych chi, ydych chi'n darparu gweithgareddau antur **nad oes angen eu trwyddedu**? **YDYM**

Os **ydydym**, rhestrwch y gweithgareddau yma (neu ar ddalen ar wahân a'i hatodi wrth y ffurflen yma) Gemau Tîm ar y Safle, Cyfeiriannu (yn ymgymryd ag Achrediad Canolfan achrededig Cymdeithas Olympaidd Prydain ar hyn o bryd), Gyrru Cychod Pŵer, Morio Iot (i gyd yn dod o dan Statws Canolfan Hyfforddi'r RYA ac yn cael eu harchwilio'n flynyddol)

Oes cofnodion o brofiad a chymhwysedd arweinwyr y gweithgareddau ar gael ar gyfer eu harchwilio ar y safle os oes angen? **OES**

14. Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol a fydd o ddefnydd yn eich barn chi i'r arweinydd sy'n ymweld neu'r Awdurdod Lleol.

Mae Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi bod yn cynnal gweithgareddau preswyl a di-breswyl ers dros 30 o flynyddoedd. Mae iechyd a diogelwch ein cyfranogwyr yn eithriadol bwysig i ni ac mae gennym enw da iawn am ddiogelwch. Mae'r ganolfan wedi dechrau ar brosiect uwchraddio mawr ac mae hanner y cyfleusterau preswyl wedi cael eu diweddarau, gyda gweddill y cyfleusterau'n cael eu hadnewyddu yn ystod gaeaf 2017/18 a 2018/19.